

CYPE(6)-12-22 - Papur i'w nodi 3

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

—

Children, Young People and Education Committee



12 Mai 2022

Diolch

Annwyl Ebonie, Glenn, Jake a Sophie,

Ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad i'n hymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Mae fy nghyd-aelodau Pwyllgor a minnau'n hynod ddiolchgar am yr holl waith a wnaethoch i'n cefnogi gyda'n hymchwiliad, a'ch amser i deithio i Gaerdydd ac oddi yno i rannu eich barn wyneb yn wyneb.

Cawsom argraff dda gan ansawdd y fideo a wnaethoch i ni, pa mor glir y gwnaethoch fynegi eich barn i ni am y mater sensitif a chymhleth hwn, a pha mor hyderus ac argyhoeddiadol roeddech wrth drafod datrysiadau posibl â ni.

Rydym wedi cymryd eich barn a'ch argymhellion o ddifrif. Gwnaethant lywio'r cwestiynau a ofynnwyd i Weinidogion Cymru pan gawsom dystiolaeth ganddynt ddydd Mercher 4 Mai (gallwch wyllo'r sesiwn dystiolaeth honno eto ar Senedd.tv os nad oedd modd i chi ei gwyllo'n fyw). Hefyd, gwnaethant gyfrannu i lythyr y byddwn yn ei anfon at Lywodraeth y DU am gyfraith newydd a fydd yn gwneud newidiadau i'r ffordd y rheoleiddir cynnwys ar-lein. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad Pwyllgor terfynol.

Fel y cadarnhaodd y Clerc yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, byddwch oll yn cael copi dan embargo o adroddiad terfynol y Pwyllgor 24 awr cyn i ni ei gyhoeddi. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yn arwain at welliannau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru, ysgolion ac eraill yn amddiffyn plant rhag aflonyddu rhywiol.

Rydym hefyd yn bwriadu rhyddhau adroddiad fideo i rannu ein canfyddiadau â phlant a phobl ifanc. Byddwn yn rhannu hynny â chi cyn iddo gael ei gyhoeddi hefyd.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Yn y cyfamser, diolch unwaith yn rhagor am eich cyfraniad gwerthfawr i'n hymchwiliad. Gobeithio bod y gwaith wedi bod o ddiddordeb i chi. Hefyd, gobeithio eich bod wedi mwynhau cwrdd â'r Pwyllgor, eich taith o'r Senedd, a chwrdd â rhai o Aelodau eraill o'r Senedd yn ystod eich diwrnod yng Nghaerdydd.

Dymunaf bob lwc i chi ar gyfer eich efrydiau a'r tu hwnt. Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech gymryd rhan yn ein gwaith yn y dyfodol, neu am unrhyw reswm arall.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.